# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Kaley Wood**

**Denbigh**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

5 Chwefror 2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| **Graddau** | **Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br><br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na<br><br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Kaley Wood wedi cofrestru i ofalu am 10 o blant o'i chartref yn Ninbych lle mae'n byw gyda'i theulu. Gall plant o dri mis i ddeuddeg mlwydd oed fynychu'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth ar agor o 8:00 – 17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r tŷ wedi ei leoli ar stryd dawel ar stad o dai. Mae gardd fawr yng nghefn y tŷ sy'n rhoi cyfleoedd i blant chwarae tu allan. Mae hwn yn wasanaeth cyfrwng Cymraeg ac yn darparu Cynnig Gweithredol yr Iaith Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

| Theme | Rating |
|---|---|
| Lles | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae plant sy'n mynychu'r gwasanaeth hwn yn hapus, bodlon ac yn gwir fwynhau eu hamser yno. Cynigir amrywiaeth da o weithgareddau sy'n hybu datblygiad a boddhad plant a'u galluogi i wneud penderfyniadau a dewisiadau eu hunain. Mae'r warchodwraig yn brofiadol a mae'n ymateb i anghenion a gofynion plant. Roedd perthynas hoffus a gofalgar wedi datblygu rhyngddynt. Mae ganddi gymhelliant da sy'n sicrhau ei bod yn gwneud newidiadau er gwell i fywydau'r plant yn ei gofal. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac addas gydag ystod o adnoddau.

**2. Gwelliannau**

Hwn oedd arolwg ôl-gofrestru'r gwasanaeth. Ers yr ymweliad arolygu mae'r warchodwraig wedi anfon tystiolaeth i Arolygaeth Gofal Cymru i gadarnhau bod gwaith i wella diogelwch llinyn y bleindiau yn yr ystafell wely wedi ei gwblhau.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rydym wedi cofnodi un argymhelliad ym maes Amgylchedd ynghylch gwella safonau diogelwch llinyn y bleindiau yn yr ystafell wely.

## 1. Lles Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, hyderus a chysurus ac yn mwynhau eu hamser gyda'r warchodwraig. Maent yn llwyddo i gyfathrebu gyda'r warchodwraig, a gwrandewir ar eu dymuniadau. Maent yn teimlo'n hapus yn eu cynefin sy'n hwyluso eu datblygiad a meithrin eu hannibyniaeth. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac wedi meithrin perthynas glòs a chynnes gyda'r warchodwraig. Mae anghenion unigol yn cael eu diwallu'n amserol.

### Ein canfyddiadau

Rhoddir gwrandawiad i lais y plentyn yn y gwasanaeth hwn. Roedd y plant yn defnyddio dulliau di-iaith gan amlaf ac yn llwyddo i gyfathrebu'n effeithiol. Roeddynt yn ymateb i gwestiynau cyson fel *'ti isio tost?'*, '*ti isio mwy o fefus?*', ' *ti isio chwarae fama?*'ac yn y blaen gan wneud penderfyniadau syml a mynegi eu dyheadau. Roedd rhyddid i'r plant symud o un gweithgaredd i'r llall gan roi cyfle iddynt ddangos hoffter, yn arbennig gan iddynt ddewis chwarae gyda'r ceir bach a'r trac droeon. Gwelsom bod y plant yn derbyn anogaeth gyson i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r rhai lleiaf yn derbyn cymorth cyson i ynganu geiriau, er mwyn datblygu eu sgiliau llythrennedd. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn eithriadol o dda a iaith eu cartref yn cael ei dathlu a'i hyrwyddo.

Mae'r plant yn hapus a dedwydd, gyda pherthynas gyfeillgar a chynnes wedi ei meithrin gyda'r warchodwraig. Roedd y plant yn teimlo'n hyderus a diogel gyda'r warchodwraig ac ni wnaeth ein hymweliad darfu arnynt o gwbl. Roedd plant yn derbyn cwtshys cyson a chael eistedd ar lin y warchodwraig wrth wrando ar stori a chanu.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd gydaol yr amser  Roedd y plant yn derbyn canmoliaeth gyson ac yn ymateb yn dda gan ddangos eu bod yn dechrau dysgu rhannu a chyd-chwarae, er enghraifft wrth chwarae gyda'r ceir bach, ac wrth ddewis creonau i liwio. Hefyd roeddynt yn dangos balchder a mwynhad wrth rannu a dangos eu teganau i ni gan ddangos dymuniad i ni ymuno yn eu chwarae. Roedd y plant yn hapus i chwarae'n annibynnol neu gyda'i gilydd a'r warchodwraig a hefyd cyfleoedd i ymlacio'n dawel pan fo angen. Gwelsom y plant yn helpu ei gilydd i gwblhau jigsos gan rannu a chyfnewid pôs ar ôl gorffen. Roedd y plant yn parchu ei gilydd ac yn datblygu eu sgiliau cymdeithasol.

Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd chwarae a dysgu ac yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau am eu gweithgareddau. Roedd y plant yn mwynhau edrych ar y llyfr lluniau a cheisio enwi'r gwrthrychau yn y lluniau. Gwelsom y plant yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau gan ymateb yn chwilfrydig a llawn brwdfrydedd wrth liwio, chwarae

offerynnau cerdd, canu, chwarae piano. Roeddynt yn cwtsio gyda'r warchodwriag i ddangos eu boddhad.

Mae plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu, dysgu a meithrin eu sgiliau annibyniaeth, sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gwneud pethau drostynt eu hunain. Roedd y plant yn llwyddo i fwydo eu hunain i raddau helaeth ac yn derbyn anogaeth i wneud  hynny. Roedd datblygiad iaith y plant yn cael ei amlygu wrth i'r plant ailadrodd geiriau newydd yr oeddynt wedi eu dysgu.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r warchodwraig yn cadw plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo byw'n iach. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn cael ei reoli'n dda a mae'r warchodwraig wedi creu awyrgylch gartrefol a gofalgar. Mae datblygiad y plant yn cael ei hyrwyddo a mae'r warchodwraig yn dangos dealltwriaeth lwyr o weithdrefnau a pholisïau allweddol.

### Ein canfyddiadau

Mae iechyd a diogelwch plant yn cael blaenoriaeth yn y gwasanaeth hwn. Mae'r warchodwraig yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau clir a phwrpasol ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Mae ganddi arferion effeithiol a threfnusrwydd i gadw'r amgylchedd yn ddiogel a glân. Drwy sgwrs cawsom ein bodloni bod y warchodwraig yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu a'i bod yn deall ei chyfrifoldeb i amddiffyn plant yn drwyadl. Mae'r warchodwraig yn mynychu cyrsiau hanfodol ac yn sicrhau bod tystysgrifau yn gyfredol. Mae ymarferion tân yn cael eu cofnodi a'u cynnal yn rheolaidd, yn ogystal â gwiriadau o'r larymau tân. Dilynwyd canllawiau rheoli heintiau wrth newid clwt ac arferion hylendid cyn ac ar ôl gweini bwyd. Roedd yn sicrhau bod plant yn ddiogel drwy ddarparu cadeiriau uchel pwrpasol i blant fwyta'u bwyd. Roedd yn cadw cofnodion manwl o ddamweiniau a roedd rhieni wedi arwyddo'r llyfr. Hefyd roedd yn sicrhau bod pob yswiriant angenrheidiol yn gyfredol. Roedd y warchodwraig yn hybu ffordd iach o fyw drwy sicrhau bod diod o ddŵr ar gael i blant bob amser, eu bod yn derbyn byrbryd iach a hefyd yn sicrhau cyfleoedd aml iddynt fod yn yr awyr iach. Roedd y plant yn cael eu hatgoffa'n gyson o reolau hylendid a diogelwch ymhob gweithgarwch.

Mae'r warchodwraig yn deall sut i reoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad ar waith mewn ffordd gyson. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn dangos gwybodaeth ragorol o'u datblygiad. Treuliodd lawer o amser yn chwarae ar lawr gyda'r plant a'u hannog i gyd-chwarae a rhannu. Roedd sylw arbennig yn cael ei roi i ddatblygiad lleferydd y plant ifanc a gwelsom ddathlu mawr wrth i un o'r plant ddysgu ynganu gair newydd. Roedd y warchodwraig yn ysgogi'r plant i liwio'n annibynnol a'u hannog i ddal y creonau'n gywir. Roedd y plant yn derbyn canmoliaeth am ddangos caredigrwydd tuag at ei gilydd ac yn eu cymell i helpu tacluso gan roi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau iddynt. Roedd y warchodwriag yn gweithredu fel model rôl da iawn, gan ddangos cysondeb a pharch tuag at y plant.

Mae'r warchodwraig yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac yn darparu adnoddau a gweithgareddau chwarae a dysgu sy'n addas i'w hoed a'u camau datblygiad. Gwelsom sampl o lyfr yn cofnodi datblygiad plant a hefyd y cynlluniau sydd ar waith ganddi i ddatblygu'r arfer hwn. Roedd yn arddangos sgiliau da i hybu datblygiad ieithyddol plant

drwy ailadrodd geiriau a gofyn iddynt ddynwared synau'r anifeiliaid wrth ddarllen stori iddynt. Mae gan y warchodwraig gefndir o weithio mewn ysgol a gŵyr sut i gynnal diddordeb plant gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau'n amserol, gan ofyn *"ti isio chwarae efo ….?'* yn rheolaidd. Roedd yn llwyddo i ddiwallu anghenion unigol drwy ei hadnabyddiaeth o'r plant.

## 3. Yr amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r warchodwriag yn darparu gofal o ystafelloedd pwrpasol yn ei chartref. Mae gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau diogelwch y plant. Mae'r warchodwraig yn sicrhau fod gan y plant ardaloedd ac adnoddau cyffrous iddynt archwilio. Mae'n darparu gweithgareddau amrywiol ac adnoddau addas i gynnal diddordeb plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r warchodwraig yn ymblethu gweithdrefnau effeithiol i'w harferion dyddiol i sicrhau diogelwch a lles y plant. Cedwir y drws allanol ar glo bob amser, ceir gatiau diogelwch i'r grisiau ac yn y mynediad i'r gegin. Roedd yr amgylchedd yn lân a diogel ac mewn cyflwr da. Roedd tyweli unigol a newidir yn ddyddiol ar gael i'r plant yn gegin lle golchir dwylo. Roedd y warchodwraig wedi cwblhau asesiad risg cyffredinol ac wedi cofnodi dyddiad yr adolygiad nesaf.Gwelsom bod y camau i leihau'r risgiau wedi eu hymblethu i arferion a gweithdrefnau dyddiol. Mae'r ardal tu allan yn fawr gyda ffens gadarn yn ei amgylchynu, ceir ardal ar wahân i'r cŵn. Nid oedd y plant yn defnyddio'r ardal ar adeg yr arolygiad oherwydd y tywydd garw diweddar. Gwelsom bod y plant yn cysgu yn nwy o'r llofftydd fyny grisiau, a nodwyd bod angen gosod bachyn ar gyfer llinyn y bleindiau. Er nad oes gan y plant fynediad at y bleindiau ar hyn o bryd oherwydd eu hoed argymhellwyd y gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Cysylltwyd â'r warchodwraig cyn cyhoeddi'r adroddiad ac mi gadarnhaodd bod y camau diogelu wedi cymryd lle.

Mae'r warchodwraig wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do sy'n galluogi'r plant i chwarae'n rhydd. Mae'r lolfa fawr hefyd yn galluogi'r warchodwraig i newid clwt mewn cornel dawel allan o'r ffordd. Mae bwrdd a chadeiriau i blant wneud posau a gwaith celf, gyda chadeiriau uchel addas yn y gegin ar gyfer bwyta. Mae'r adnoddau yn hygyrch i blant ac wedi eu storio mewn uned addas. Mae'r ardal chwarae yn y lolfa wedi eu rhannu'n ardaloedd profiad sef ardal y cartref, ardal gerdd a phabell sydd hefyd yn gornel ddarllen ac ardal dawel i ymlacio. Mae'r trefniant hwn yn galluogi plant i chwarae gyda'i gilydd neu gael cyfnod tawel ar eu pennau eu hunain.

Mae'r warchodwraig yn darparu teganau ac adnoddau addas sy'n hygyrch i'r plant. Roedd y teganau, yr adnoddau a'r amgylchedd yn lân iawn a dywedwyd eu bod yn cael eu gwirio'n wythnosol. Argymhellwyd bod y warchodwraig yn cofnodi'r arfer hwn. Mae'r adnoddau yn ennyn chwilfrydedd y plant ac yn rhoi mwynhad iddynt, yn arbennig y ceir bach a'r trac. Mae adnoddau safonol yn yr ardal tu allan hefyd gyda chanolfan antur i annog plant i fod yn fentrus. Mae nifer o'r adnoddau wedi eu gwneud o ddeunyddiau cynaliadwy.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

### Crynodeb

Mae'r warchodwraig yn deall ac ymarfer ei chyfrifoldebau ynghylch rheoliadau. Mae'n sicrhau ei bod yn mynychu cyrsiau perthnasol i wella a datblygu'r gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y warchodwraig weledigaeth benodol ar gyfer y gwasanaeth a mae'n diweddaru ei gwybodaeth ac ymgyfarwyddo gyda'r polisïau er mwyn datblygu ymhellach. Mae ganddi ffeil polisïau manwl a chyflawn mewn lle ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau yn cael eu hamlygu yn ei harferion dyddiol. Dangosodd y warchodwraig ei hymwybyddiaeth o'r angen i adolygu'r dogfennau hyn yn rheolaidd gan nodi'r dyddiad yn y ffeil. Mae'r warchodwraig yn darparu datganiad o ddiben cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod rhieni yn cael mynediad at wybodaeth digonol am y gwasanaeth. Mae'n caffael gwybodaeth drylwyr o blant cyn iddynt gychwyn yn y gwasanaeth a chedwir y wybodaeth mewn modd priodol. Roedd y warchodwraig yn dangos dealltwriaeth lwyr o'i chyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg a mae'n darparu Cynnig Gweithredol yr iaith Gymraeg.

Mae'r warchodwraig yn dilyn gweithdrefnau er mwyn adolygu ansawdd y gofal. Er nad yw'r gwasanaeth ond yn weithredol ers pedwar mis, gwelsom gofnodion o'r arfer i adolygu'r gofal bob tri mis. Nid ydyw hyd yma wedi paratoi adroddiad ansawdd gofal, ond bwriedir gwneud hynny ar ôl blwyddyn o wasanaeth. Gwelsom yr holiaduron sydd wedi eu paratoi ar gyfer rhieni yn barod ar gyfer eu dosbarthu.

Mae'r warchodwraig yn cymryd ei dyletswyddau o ddifrif ac yn hunan-ddisgybledig. Roedd yn gweithio'n ddiwyd i gynnal rheolaeth lwyr o'i hamser a'r adnoddau. Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod tystysgrifau yswiriant priodol a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ei chyfer hi a'i gŵr yn gyfredol. Mae'r warchodwraig yn mynychu cyrsiau yn rheolaidd i sicrhau bod ei gwybodaeth iechyd a diogelwch yn gyfredol.

Mae'n sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda. Roedd rhieni yn derbyn gwybodaeth am eu plant drwy gyswllt dyddiadur dyddiol a sgwrs anffurfiol wrth ddod i hebrwng eu plant. Yn anffodus ni chawsom gyfle i drafod hyn gyda'r rhieni. Roedd y warchodwraig hefyd yn rhyngweithio gyda gwarchodwyr eraill er mwyn rhoi cyfleoedd estynedig i blant ryngweithio gyda'u cyfoedion a datblygu sgiliau cymdeithasol. Hefyd mae wedi sicrhau bod rhieni a phlant yn adnabod y personau wrth gefn yn ei threfniant ar gyfer argyfwng.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwirio a gwella diogelwch y bleindiau yn yr ystafelloedd gwely.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn ymweliad dirybudd er ein bod wedi ffonio ychydig amser o flaen llaw i gadarnhau pa ddyddiau ac amseroedd roedd y warchodwraig ar gael. Cynhaliwyd yr yarolygiad ddydd Mercher 5 Chwefror 2020 o 9:10 tan 13:30. Trefnwyd i ffonio'r warchodwraig dydd Gwener 07 Chwefror i adrodd yn ôl. Buom yn arsylwi gweithgareddau tu fewn. Hefyd:

- adolygwyd ystod o ddogfennau – sef Datganiad o Ddiben, ffeil polisïau a gweithdrefnau, asesiadau risg a llyfr damweiniau a chofnodion personol dau blentyn;
- arsylwom amrywiaeth o weithgareddau yn ystod yr arolygiad, gan arsylwi'r gofal mae plant yn ei dderbyn;
- arsylwi'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau a'r adnoddau a
- siaradom gyda'r warchodwraig ei hun arhyngweithio gyda'r plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 5. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person(au) Cofrestredig** | **Kaley Wood** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis – 12 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **8:00 – 17:30<br>Llun i Gwener** |
| **Prif iaith y gwasanaeth** | **Cymraeg a Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolwg Ôl-gofrestru** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **05 Chwefror 2020** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg?** | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/07/2020